CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 8fed TACHWEDD 2016.

PRESENNOL:
Cynghorydd Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mr Einion Parry Williams, Mrs Janet Hughes, Mr Mike Jones, Mr Ian Owen, Mr Meirion Thomas a Mr J Alun Foulkes (Clerc). Cynghorwyr Sirol: Mr Victor Hughes.

YMDDIHEURIAD:
Cyng Catherine Jane Hughes, Mr W Raymond Evans, Mr John Pritchard a Mr Edward J Thomas. Cynghorwr Sirol: Mr Hywel Eifion Jones.

1 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1.2 Nid oedd neb wedi datgan diddordeb ar unrhyw eitem wedi ei rhestru ar y rhaglen.

2 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad ar lafar oddiwrth y Cynghorydd Sirol Mr Victor Hughes ar y canlynol:

2.1 Fe ddaeth gopi o lythyr gerbron y pwyllgor oddiwrth Mrs Brenda Ellis, Trem Arfon, 3 Chapel Terrace ynghyd a deiseb yn cwyno am gor-yrru ar hyd Chapel Street a Chapel Terrace yn ogystal a cerbydau mawr trwm a oedd yn achosi difrod i waliau gerddi y cymdogion ac dangoswyd lluniau fel tystiolaeth. Roeddynt yn gofyn am adolygu y cyflymder ac hefyd atal pwysau cerbydau mawr rhag defnyddio'r lon. Roedd y Cyngor Sir a'r Heddlu hefyd eisoes wedi derbyn copi o'r llythyr. **Cafwyd trafodaeth a penderfyniad yn cefnogi'r ymgyrch a gofyn i'r Clerc ysgrifennu i'r Adran Priffyrdd ac sicrhau fod Cyng Victor Hughes yn derbyn copi.**

2.2 **Adroddiad Problemau Carthffosiaeth Dŵr** – fe rhannodd Cyng Hughes adroddiad o'r cyfarfod a gafwyd diwedd Mis Medi drafod gorlifo ym Mhentre Berw ac fe ddywedodd y bydd yno cynllun rhag atal llifogydd yn y Gaerwen ac fod ail wneud rhan o'r carthffos ar hyd Lon Groes. Bwriedir lleoli Tanc i ddal y glaw trwm ger Holland Arms ym Mhentre Berw ond does dim manylion pellach ar hyn o bryd. Disgwylir y gwaith i ddechrau Mis Ebrill/Mai 2017.

2.3 **Ymgynghoriad Grid Cenedlaethol** – pwysleisiodd ei fod hi yn bwysig fod pob Cyngor Cymuned yn ymateb i'r ymgynghoriad. Hefyd, fe ddarllenodd y Clerc sylwadau Cynghorydd Raymond Evans i'r aelodau yn gofyn am cefnogaeth y Cyngor i'r ymgyrch brotest. Yn dilyn trafodaeth, fe benderfynwyd ofyn i Cynghorydd Raymond Evans gyda'r Clerc i lunio ymateb ar rhan y Cyngor erbyn y dyddiad cau: 16 Rhagfyr 2016.

2.4 Cynllun Cysylltiad Nwy Pentre Gaerwen – cafwyd adroddiad pellach oddiwrth Cyng Hughes ac fe benderfynwyd trefnu diwrnod a cyfarfod agored dechrau'r flwyddyn er mwyn darganfod barn yr etholwyr.

2.5.1 **Parc Gwyddoniaeth –** mynegwyd siom fod Fferm Cefn Du wedi ei ddymchwel ac y ffaith nad oedd Cais Llawn Terfynol wedi ei cyflwyno ac fe nodwyd ymdrech Cyng Hughes yn gofyn am atebion oddiwrth Adran Cynllunio y Cyngor Sir. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc llunio llythyr cryf ar rhan y Cyngor Cymdeithas at Arweinydd a Prif Weithredwr y Cyngor Sir yn gofyn am rhesymau ac ymateb I pryderon yr aelodau – copi o'r llythyr I sylw Cyng Victor Hughes.

2.5.2 **Parc Gwyddoniaeth – Plannu Blodau ar Gylchfan Enfawr Newydd yr A5 yn y Gaerwen (Mynediad Newydd y Parc Gwyddoniaeth) –** rhanwyd gwybodaeth ebost rhwng Pryderi Ap Rhisiart o Prosiect M-SParc, y Cynghorwyr Sirol, Adran Priffyrdd y Cyngor Sir a Clerc y Cyngor ac eu bod yn awyddus plannu bylbiau daffodil ar y gylchfan. Er mwyn sicrhau a derbyn caniatad i wneud hyn fe fydd rhaid i'r Cyngor Cymuned lenwi cais priodol (Adran 142 Ddeddf Priffyrdd 1980). O ystyried yr holl wybodaeth, gwrthodwyd yr aelodau i'r Cyngor lenwi'r ffurflen.

3 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

3.1 Ar ol cywiro cofnod 6.1 lle dylid fod wedi nodi fod Mr John Williams wedi bod rhy prysur i **beidio codi'r wâl**, derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 27ain Medi 2016 yn gywir. (EPW/LJ).

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

4.1 **Cyfarfod gyda'r Heddlu & Swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru** – dywedodd y Clerc y bydd yn disgwyl cael cyfarfod gyda cynrychiolydd y ddau gorff dechrau'r flwyddyn.

4.2 **Hysbysfwrdd Newydd** – disgwylir derbyn yr Hysbysfwrdd newydd ymhen pythefnos.

5 MATERION CAEAU CHWARAE.

5.1 Wâl Cae Chwarae Mawr – nodwyd fod y gwaith mewn llaw.

5.2 Cafwyd adroddiad fod sefyllfa sbwriel o gwmpas y Cae Chwarae Mawr wedi gwella ac yn parhau cadw golwg ar y sefyllfa.

5.3 Cafwyd adroddiad pellach ynghylch ac yswirio offer y Caeau Chwarae.

5.4 Yn dilyn y cyfarfod diwethaf - nodwyd ystyriaeth gosod arwyddion newydd yn y caeau chwarae mewn llaw.

5.5 Roedd Cyng Ian Owen am gysylltu gyda Dafydd Hughes er mwyn tacluso darn gyferbyn a Hen Siop Chemist ar Gardd Mileniwm.

6 MATERION LLWYBRAU.

6.1 Adroddwyd fod angen torri Llwybr y Rhos a gofyn i Mr O G Jones am wneud y gwaith.

7 MATERION PRIFFYRDD.

7.1 **Safle'r Gofeb** – y Clerc i anfon llythyr pellach i'r Adran Briffyrdd yn gofyn am sefyllfa gosod llinellau melyn naill ochr mynedfa Lon Groes o'r A5.

7.2 **Parcio Mynedfa Stad Swn yr Engan & Bronllys** – y Clerc i anfon llythyr a nodi pryder yr aelodau i'r parcio ger mynedfa y ddwy stad a gofyn iddynt trefnu diwrnod cyfleus er mwyn ymweld a'r safle gyda aelod y Cyngor Cymdeithas yn bresennol ynghyd ac unrhyw safle arall sydd angen sylw.

7.3 **Lon Capel Berea i'r A5** – dywedwyd fod angen torri'r gordyfiant a gofyn i'r Cyngor Sir wneud y gwaith gan mai nhw sydd yn gyfrifol pob blwyddyn.

7.4 Nodwyd Gorchymyn y Cyngor Sir (Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro) (Ffordd o'r A5122 pasio Fron Capel i'r cyffordd gogledd o Fron Deg, Gaerwen) er mwyn gosod prif bibell nwy newydd rhwng 31 Hydref 2016 a 18ain Tachwedd 2016.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD & PENDERFYNIADAU Y CYNGOR SIR.

8.1 Cais Llawn ar gyfer Newid Defnydd Adeilad Allanol i Annedd yn:
LLEOLIAD: Berw Uchaf, Pentre Berw. Rhif Cais: 33C182D.
Penderfyniad: **DIM SYLWADAU.**

9. PENDERFYNIADAU ADRAN CYNLLUNIO Y CYNGOR SIR.

9.1 Cais Llawn – Codi Porth - 25 Bronllys, Gaerwen (33C313) – CANIATAD.

9.2 Cais Dymchwel & Codi Adeilad Newydd – Mona Precast – (33C20Y/3/ECON) – CANIATAD.

9.3 Cais Dymchwel a Codi Storfa Newydd – Plas Farm Ltd – (33C20X/3) – CANIATAD.

9.4 Cais Tynnu Amodau – Bwthyn Cerian, Pentre Berw – (33C182C/DEL) – CANIATAD.

9.5 Cais Codi Modurdy/Gweithdy Preifat – The Barn, Durham Lodge (33C150B) – CANIATAD.

10 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

10.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Medi & Hydref 2016 yn cynnwys cysoniad banc a datganiad y banc.

10.2 **Gweinyddu & Rheoli Risg:**

10.2.1 Dim adroddiad.

10.3. **Taliadau:**
Yn ogystal a rhestr taliadau amlinellwyd yn 10.1, penderfynwyd talu'r canlynol:

217	Mr Einion P Williams	Costau Trafeilio	£ 7.20
218	Cyngor Sir Ynys Mon	Lles Cae Peldroed	£ 261.00
219	Mr Raymond Evans	Costau Trafeilio	£ 84.00
220	The Poppy Appeal	Torch Sul y Cofio	£ 20.00
221	Anghenion Swyddfa	Llyfr Newydd Cyfrifon	£ 30.75 + TAW

10.4 Derbyniwyd lythyr oddiwrth Cymdeithas Hamdden Esceifiog yn gofyn am rhodd tuag at costau rhedegol y Caeau Chwarae yn ogystal a cynnal a chadw'r offer ac amgaeir fantolen 2015/2016 gyda'r cais er sylw y Cyngor. Penderfynwyd yn unfrydol cyfrannu swm o £2,000.00 yn unol a S137 Deddf Lywodraeth Leol 1972 (EPW/MJ).

11. ADRODDIADAU.

11.1 Adroddiad oddiwrth Cyng Einion P Williams yn dilyn cyfarfod gyda Neil Johnston (Menter Môn) – penderfynwyd ymestyn gwahoddiad iddo dechrau'r flwyddyn I drafod paneli solar gyda aelodau o'r Cyngor.

11.2 Adroddiad Cyfarfod Rhanddeiliad (16/10/16) gan Cyng Einion P Williams a oedd wedi trafod sefyllfa cadw llyfrgelloedd ar draws yr Ynys.

12. GOHEBIAETH

12.1 **Ymgynghoriad Cadw Ffonau Cyhoeddus BT** – yn dilyn gwybodaeth a thrafodaeth – gofynwyd i'r Clerc ymateb i'r Ymgynghoriad a gofyn I BT ystyried cadw'r ciosg ym Mhentre Berw.

12.2 **Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn** – atal ymateb a trafod yn bellach yn y cyfarfod nesaf.

12.3 **Rhybudd Pobl Sy'n Cysgu Allan: Cyfrif 2016** – neb yn ymwybodol fod hyn yn digwydd yn y Gaerwen/Pentre Berw.

12.4 Datganiad y Cyngor Sir yn chwilio am £3m o doriadau yn ogystal a chynydd yn y Dreth Cyngor o 3% am 2017/2018.

12.5 Rhybudd Ymgynghoriad – Opsiynau Darpariaeth Addysg Gynradd Ardal Llangefni a'r Cyffiniau – Cyfnod (3 Hydref 2016 – 13 Tachwedd 2016) – er gwybodaeth.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 29ain TACHWEDD 20165.

13.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:55yh.

Arwyddo…….....…….……Cadeirydd…….....……..Dyddiad.